

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Teitl y polisi a'i ddiben (amlinelliad cryno):	Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 Canllaw i'r amserlenni ar gyfer gweithredu cynlluniau dysgu unigol i blant o oedran ysgol gorfodol ac iau
Adran:	Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Dyddiad:	Gorffennaf 2018
Enw'r Gangen:	Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

1. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad.

Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw'r nodau a bennwyd (yn cynnwys pwy yw'r buddiolwyr arfaethedig), disgrifiad bras o sut y cyflawnir hyn, beth fydd yn mesur llwyddiant, a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?

Y canllaw hwn yw'r cyntaf mewn cyfres a fydd yn pennu sut y bydd agweddau penodol o Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf') yn creu fframwaith statudol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd y fframwaith newydd hwn yn disodli'r fframwaith statudol presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig ynghyd â'r drefn asesu a chynllunio ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anabledau dysgu (AAD) sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Yr amcanion yw creu:

- Un fframwaith deddfwriaethol i gefnogi plant o oed ysgol gorfodol neu'n iau ag ADY, a phobl ifanc sydd ag ADY hyd at 25 oed sydd yn yr ysgol neu mewn addysg bellach;
- Proses gydweithredol integredig o asesu a chynllunio sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
- System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor, a datrys pryderon ac apeliadau.

Er mwyn cyflawni'r tri amcan cyffredinol hyn mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu un ar ddeg o nodau craidd a fydd yn sail i ddarpariaethau'r Ddeddf. Dyma'r nodau:

- Cyflwyno'r term ADY
- Ystod oedran 0 i 25

- Cynllun unedig
- Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy
- Dyheadau uchel a gwell deilliannau
- System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro
- Rhagor o gydweithredu
- Osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach
- Hawliau clir a chyson i apelio
- Cod gorfodol
- System ddwyieithog

Mae'r canllawiau gweithredu'n nodi sut mae'r cynlluniau unedig yn cael eu gweithredu gan amlaf ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol neu iau. Nid yw'n mynd i'r afael â threfniadau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol i bobl ifanc dros yr oedran ysgol gorfodol na'r trefniant ar gyfer eithriadau i'r modd y bydd Cynlluniau Datblygu unigol yn cael ei roi ar waith. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu nodi mewn canllawau a gyhoeddir ar wahan.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd ati'n raddol i weithredu'r fframwaith statudol newydd, a fydd yn cydreddeg â'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY. Y nod yw helpu sefydliadau ac ymarferwyr i ddeall y system newydd, ac i reoli'r gwaith o drosglwyddo dysgwyr yn effeithiol o'r system bresennol i'r system newydd.

Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar yr opsiynau ar gyfer gweithredu'r system newydd ei gynnal rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2017. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Rhagfyr 2017.

Llywiwyd y dewis o gyflwyno'r fframwaith statudol, newydd yn raddol mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch sut y dylid gweithredu'r Ddeddf. Roedd cefnogaeth gref i'r syniad o roi'r system ADY ar waith yn raddol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cytuno/ mai amserlen genedlaethol ar gyfer trosglwyddo cohortau penodol o blant a phobl ifanc fyddai'r dull hawsaf i'w reoli a'r mwyaf cyson.

2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o'r canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?

Mae gwaith ymgysylltu wedi mynd rhagddo'n gyson â phob rhanddeiliad allweddol, gan gynnwys plant, rhieni/gofalwyr, pobl ifanc, partneriaid gweithredu, ymarferwyr a'r trydydd sector wrth i'r polisiau sy'n sail i'r Ddeddf gael eu datblygu.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mehefin 2012 ynghylch gweledigaeth eang o system ddiwygiedig sef *Ymlaen mewn Partneriaeth*

dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2013¹.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru yn ogystal gyfres o weithdai yn hydref 2013 ac mae wedi parhau i gyfnewid syniadau gyda gwahanol randdeiliaid a grwpiau proffesiynol er mwyn pennu ffyrdd ymarferol a realistig o ddiwygio mewn modd effeithiol a fydd yn parhau².

Gan adeiladu ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ym mis Mai 2014 a amlinellodd gynigion deddfwriaethol ar gyfer ADY. Cafodd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu eu cynnal gyda phlant a phobl ifanc (gan gynnwys rhai ag anghenion addysgol arbennig (AAA)/anawsterau a/neu anabledau dysgu (AAD) yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn sicrhau cyfle iddynt leisio eu barn. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei darllen o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant, pobl ifanc a'r rhai ag anawsterau dysgu.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 25 Gorffennaf 2014, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 14 Hydref. Gallwch ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru. Gallwch hefyd weld crynodeb o'r trafodaethau a gafwyd yn ystod y digwyddiadau gyda phlant a phobl ifanc:

<https://beta.llyw.cymru/cynigion-deddfwriaethol-ar-gyfer-anghenion-dysgu-ychwanegol-papur-gwyn>

Yn yr hydref 2014, aeth Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru ati i ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r diwygiadau i'r system ADY. Casgliad o grwpiau'r trydydd sector yw Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector sy'n cynrychioli/cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag ystod o ADY. Bu'r grŵp yn cyfarfod tan yr haf 2015. Defnyddiwyd y cyfarfodydd hyn i lywio polisi a rhoi mwy o eglurder a manylion ar ein cynigion.

Ar 6 Gorffennaf 2015, cyhoeddwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft ar gyfer ymgynghoriad. Roedd hwn yn adeiladu ar y Papur Gwyn ac yn cynnwys darpariaethau newydd. I ategu'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 18 Rhagfyr 2015, cyhoeddwyd hefyd fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r amserlen fras ar gyfer gweithredu'r system newydd.

Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc ynghyd ag esboniad hawdd ei ddarllen o'r Bil drafft. Defnyddiwyd y dogfennau hyn gan gontractwr, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, i helpu i gyflwyno gweithdai wedi'u teilwra i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Cynhaliwyd cyfanswm o 23 o weithdai.

Defnyddiwyd safbwyntiau plant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, ynghyd â'r adborth a ddaeth i law drwy ymgynghori'n ehangach, i lywio'r gwaith o fireinio'r Bil a'r pecyn ehangach o ddiwygiadau (gan gynnwys, ymhlith elfennau eraill, y Cod ADY drafft a'r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY). Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://beta.llyw.cymru/bil-drafft-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru>

¹ Gellir cael copi o'r ymgynghoriad a'r ddwy ddogfen yn crynhoi'r ymatebion gan SENReforms@llyw.cymru

² Gellir gofyn am grynoded o'r trafodaethau yn y gweithdai odi wrth SENReforms@llyw.cymru

Yn ogystal, yn ystod y cyfnodau o ymgynghori ar y Papur Gwyn a'r Bil drafft, aeth yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr hefyd ati i gynnal cyfres o gyfarfodydd a sesiynau ymgynghori a oedd yn targedu rhanddeiliaid amrywiol iawn sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc ag ADY neu sy'n cynrychioli eu buddiannau. Mae'r rhain yn cynnwys (ymhlith eraill):

- Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a'i is-grŵp ar Gynhwysiant
- NATSPEC (cymdeithas colegau arbenigol annibynnol)
- Grŵp Cynghori ar Anableddau Dysgu
- Panel Ymarferwyr Ysgol
- Colegau Cymru Colleges Wales
- Grwpiau Cydlynwyr AAA
- Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar
- Cymdeithasau Penaethiaid Ysgolion Arbennig De a Gogledd Cymru
- Grŵp Partneriaeth Undeb
- Estyn
- Comisiynydd Plant Cymru
- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Dwy sesiwn ymgynghori genedlaethol yn y De a'r Gogledd
- Lleoliadau ôl-16 Adran Addysg Llywodraeth y DU

Defnyddiwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yr adborth a gasglwyd wrth ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid ynghyd â chasgliadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar sail eu gwaith craffu ar y Bil drafft, er mwyn llywio'r gwaith o fireinio'r Bil a datblygu'r pecyn diwygiadau ehangach.

Ar ôl cyflwyno'r Bil, lluniwyd esboniad hawdd ei ddarllen o'r Bil gan Anabledd Dysgu Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2017.

<https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-01/151019-easy-read-explanation-cy.pdf>

Nod yr esboniad hawdd ei ddarllen yw helpu plant a phobl ifanc ag ADY a'u teuluoedd i ddeall yr hyn a ddiwygiwyd. Mae'n rhoi'r hawl iddynt hefyd i fynegi eu barn am faterion sy'n effeithio arnyh nhw.

Ar 27 Chwefror 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau ar gyfer gweithredu'r system newydd a'r broses bontio. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mehefin, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr. Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

<https://beta.llyw.cymru/dewisiadau-ar-gyfer-gweithredu-bil-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru>

Yn ystod Chwefror a Mawrth, cynhaliodd Llywodraeth Cymru hefyd wyth digwyddiad rhanbarthol i randdeiliaid ynghylch y Bil a'i weithredu. Roedd y digwyddiadau hyn yn agored i unrhyw un oedd â diddordeb yn y broses ddiwygio ddeddfwriaethol hon, ac aeth rhieni, awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, penaethiaid, staff addysgu, sefydliadau addysg bellach, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig, ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, aelodau panel y Tribiwnlys AAA, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae adborth o'r digwyddiadau hyn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ymhellach y rhaglen i drawsnewid y system ADY a'r cynlluniau i weithredu'r system newydd.

Cyhoeddwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar yr un pryd â'r Bil drafft (<https://beta.llyw.cymru/bil-drafft-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru>) a chyhoeddwyd fersiwn arall wrth gyflwyno'r Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr. Adolygwyd yr asesiad effaith yng ngoleuni gwelliannau Cam 2 a 3 a datblygiadau polisi pellach. Mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/legislation-and-statutory-guidance/?lang=cy>

3. Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?

Mae'r penderfyniad i ddiwygio'r system bresennol ar gyfer AAA yn seiliedig ar dystiolaeth eang ei chwmpas o gyfres o adroddiadau ac adolygiadau ynghyd ag ymgynghoriad blaenorol a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid. Caiff hyn ei ddisgrifio yn yr ateb i gwestiwn 2.

Rhwng 2003 a 2007 cynhaliwyd adolygiad tair rhan o AAA gan gyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chafodd adroddiadau cysylltiedig eu cyhoeddi yn y drefn ganlynol:

- a) *Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar*, Tachwedd 2004;
- b) *Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau)*, Mai 2006;
- c) *Trosoglwyddo*, Mawrth 2007.

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiadau'r Pwyllgor yn seiliedig ar adroddiadau cynharach gan y Comisiwn Archwilio (*Anghenion addysgol arbennig: Mater prif ffrwd, 2002*) ac Estyn (*Cymorth i Blant ag Anghenion Addysgol Arbennig: Trosolwg Estyn, 2003*). Gyda'i gilydd, daeth yr adroddiadau hyn i'r casgliadau canlynol mewn perthynas â'r system bresennol ar gyfer AAA:

- mae'r broses asesu sy'n gysylltiedig â datganiadau'n aneffeithlon, yn fiwrocraidd, yn gostus, nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn ac nid yw'n hawdd ei defnyddio;

- weithiau caiff anghenion eu nodi'n hwyr ac nid yw ymyriadau'n brydlon nac yn effeithiol;
- mae teuluoedd yn teimlo bod yn rhaid iddynt yn aml frwydro i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plentyn ac nad ydynt yn gwybod at bwy y gallant droi i gael cyngor a gwybodaeth.

Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd ymgynghoriad cychwynnol ac eang ei gwmpas ar ddiwygiadau posibl i'r system bresennol o gefnogaeth ar gyfer AAA ac AAD (*Datganiadau neu Rywbeth Gwell, 2007*). Wedi hynny, sefydlwyd nifer o brosiectau i ddatblygu a threialu systemau a dulliau newydd er mwyn llywio polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- pedwar cynllun peilot ar gyfer diwygio yn cynnwys wyth awdurdod lleol. Y nod oedd datblygu a threialu dull o gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion (gan ddefnyddio CDU) ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA ynghyd â system newydd ar gyfer sicrhau ansawdd ac offeryn ar-lein ar gyfer cynllunio ac asesu;
- cynllun peilot 'hawl apelio i'r plentyn' yn cynnwys dau awdurdod lleol.

Ceir gwerthusiad o'r cynlluniau peilot ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://wales.gov.uk/statistics-and-research/programme-action-research-additional-learning-needs-pilot/?lang=cy>

Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ynghylch *Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol* (2012), y Papur Gwyn (2014) a'r Bil drafft (2015), yn ogystal â'r ymatebion i ymgynghori ehangach â rhanddeiliaid (a ddisgrifir uchod o dan gwestiwn 2), yn sail i ddatblygiad y Bil, y Cod ADY drafft a'r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar opsiynau ar gyfer gweithredu'r system newydd a'r broses o drosglwyddo iddi, yn cefnogi datblygu'r canllawiau gweithredu.

Effaith

4.1 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoed?

Oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Pobl iau <i>(Plant oedran ysgol gorfodol neu'n iau)</i>	Cadarnhaol			<p><u>Y Canllawiau gweithredu</u></p> <p>Bydd gan yr holl blant a phobl ifanc sydd ag ADY Gynllun Datblygu Unigol a'r holl hawliau sydd ynghlwm â hynny, ni waeth pa mor gymhleth yw eu hanghenion.</p> <p>Bydd Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn cael eu llunio drwy gyfarfodydd cydweithredol, lle bydd ymarferwyr yn defnyddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i sicrhau bod barn, dymuniadau a theinladau'r plentyn neu/a ei riant yn ganolig i benderfyniadau sy'n ymwneud ag ADY eu plentyn.</p> <p>Mae'r canllawiau gweithredu'n nodi sut y bydd CDUau'n cael eu rhoi ar waith dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r dull o'u cyflwyno'n raddol yn seiliedig ar farn rhanddeiliaid a waneth ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch sut i roi'r Ddeddf ar waith. Dangosodd yr ymgynghoriad fod cefnogaeth gref i gyflwyno'r system ADY yn raddol. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno mai amserlenni cenedlaethol ar gyfer trosglwyddo cohortau penodol o blant i'r system newydd fyddai'r dull mwyaf cyson a'r hawsaf i'w reoli.</p> <p>Er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw effaith niweidiol a fyddai'n deillio o weithredu'r Ddeddf yn raddol, mae'r dull a fabwysiadwyd yn rhoi blaenoriaeth i'r plant ieuengaf i hwyluso</p>

Oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
				<p>ymyrryd yn gynnar ac yn effeithiol, ac i'r plant hynny sydd ar fin cyrraedd cerrig milltir penodol o ran cynnydd i hwyluso cynllunio'n effeithiol ar gyfer y broses o drosglwyddo. Yn ogystal, rhaid i blant sydd â datganiad AAA gael Cynlluniau Datblygiad Unigol o fewn dwy flynedd gan gydnabod mae'r dysgwyr hyn sy'n debygol o fod â'r anghenion mwyaf difrifol a mwyaf cymhleth.</p> <p><u>Y Ddeddf</u> Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar adnabod ADY yn gynnar ac yn brydlon, cynllunio a chyflenwi darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen ar gyfer bodloni ADY y plentyn neu'r person ifanc.</p> <p>Mae'r Ddeddf yn cefnogi'r arfer o asesu dysgwyr o ran ADY yn gynnar, sy'n allweddol i ymyrraeth gynnar. Mae'r gofyniad newydd i awdurdodau lleol ddynodi Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i gydlynu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oed ysgol gorfodol (nad ydynt eto mewn lleoliad a gynhelir) yn adlewyrchu hyn. Dylai nodi problemau'n gynnar ac ymyrraeth amserol arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr ag ADY.</p> <p>Bydd y Ddeddf yn cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu.</p> <p>Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag</p>

Oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
				Anabledau wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r Ddeddf, ac yn unol â'r Cod ADY.
Pobl 18- 50 oed	Cadarnhaol			<p><u>Y Ddeddf</u> Mae'r Ddeddf yn berthnasol i bobl ifanc sydd dros oed ysgol statudol hyd at 25 oed sy'n mynychu ysgol neu leoliad addysg bellach.</p> <p>Ar hyn o bryd nid oes gan bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliad addysg bellach hawl i gynlluniau datblygu statudol a fyddai'n eu cefnogi gyda'u ADY ac nid oes ganddynt yr hawliau cysylltiedig i apelio i TAAAC.</p> <p><u>Y canllawiau</u> Mae'r canllawiau yn nodi'r trefniadau ar gyfer trawsnewid cynlluniau cynorthwyo plant drwy Weithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar, Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu yn yr Ysgol a Mwy, o gynlluniau addysg unigol anstatudol yn CDUau statudol, Bydd hyn yn digwydd dros dair blynedd.</p> <p><u>Canllawiau gweithredu yn y dyfodol</u> Y cyntaf mewn cyfres fydd y canllawiau hyn. Bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi ar wahân yn nodi'r trefniadau gweithredu ar gyfer CDUau i bobl ifanc ag ADY sydd mewn addysg ôl-16.</p>

Oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Pobl hŷn (50+)			Dim	Bydd y Ddeddf yn cefnogi dysgwyr ag ADY o'u geni hyd nes y byddant yn 25 oed er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu addysgol cyn ac wrth iddynt dyfu'n oedolion. Mae'n ymwneud â pharatoi plant a phobl ifanc ar gyfer eu bywydau a'u gyrfaoedd. Nid yw'r Ddeddf felly'n darparu hawliau y tu hwnt i 25 oed – sef pan ystyriwn fod unigolyn wedi pasio cyfnodau ffurfiannol ei fywyd. Oherwydd hynny, nid yw darpariaethau'r Ddeddf yn berthnasol i bobl hŷn ac ni fyddai'n effeithio arnyn nhw'n benodol.

4.2 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu bod yn anabl?

Nam	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Nam ar y golwg	Cadarnhaol			<u>Y Ddeddf</u> Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar yr angen i sicrhau bod anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY yn cael eu bodloni.

Nam ar y clyw	Cadarnhaol			Mae gan berson ADY os oes ganddo anhawster neu anabledd sy'n golygu bod angen trefnu DDdY. Er na ystyrir bod gan bob plentyn neu berson ifanc sydd â'r namau a restrir gyferbyn ADY, os oes ganddynt ADY yn sgil eu nam neu'n ychwanegol ato byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol.
Anabledd corfforol	Cadarnhaol			
Anabledd dysgu	Cadarnhaol			
Problem iechyd meddwl	Cadarnhaol			Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r Ddeddf. Mae hyn yn golygu bod rhoi sylw i hawliau plant yn gwbl ganolog i'r Ddeddf, fel y bydd awdurdodau lleol a chyrff y GIG yn rhoi sylw i'r confensiynau wrth wneud penderfyniadau strategol yn unol â'r Cod ADY.
Namau eraill	Cadarnhaol			Bydd rhoi'r Ddeddf ar waith yn sicrhau diogelwch statudol ar gyfer ystod eang o ddysgwyr. Ar hyn o bryd mae'r plant a'r bobl ifanc mewn ysgolion sydd ag anghenion llai difrifol neu gymhleth yn derbyn cynllun anstatudol. Mae dysgwyr mewn lleoliadau addysg bellach sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu hefyd yn derbyn cynllun anstatudol o'r lleoliad ei hun. Bydd y Ddeddf yn sicrhau bod gan bob dysgwr 0 i 25 oed sydd ag ADY hawl i gynllun statudol, sef y Cynllun Datblygu Unigol (CDU), pa mor ddifrifol neu gymhleth bynnag yw ei anghenion. Dylai hyn wella'r broses bontio i ddysgwyr rhwng ysgolion ac addysg ôl-16, gan sicrhau mwy o degwch o ran cymorth a hawliau i'r grŵp hwn o ddysgwyr. Mae'r dull o weithredu'r CDUau yn rhoi blaenoriaeth i'r plant ieuengaf i hwyluso ymyrryd yn gynnar ac yn effeithiol, ac i'r plant hynny sydd ar fin cyrraedd cerrig milltir penodol o ran

				cynnydd i hwyluso cynllunio'n effeithiol ar gyfer y broses o drosglwyddo. Yn ogystal, rhaid i blant sydd â datganiad AAA gael Cynlluniau Datblygiad Unigol o fewn dwy flynedd gan gydnabod mae'r dysgwyr hyn sy'n debygol o fod â'r anghenion mwyaf difrifol a mwyaf cymhleth.
--	--	--	--	--

4.3 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu rhyw (dyn neu ddynes)?

Rhyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)/ Sut y gallai effeithio?
Gwryw			Dim	Nid yw'r Ddeddf yn ymwneud â rhyw benodol ac ni nodwyd effaith anuniongyrchol ar un rhyw benodol. Ei nod yw cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu addysgol.
Benyw			Dim	

4.4 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu bod yn drawsrywiol?

Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
			Dim	Nod y Ddeddf yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu, gan gynnwys pobl drawsrywiol. Nid yw'r cynigion yn ymwneud â rhyw penodol.

4.5 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

Priodas a Phartneriaeth Sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Priodas			Dim	Nod y Ddeddf yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu addysgol. Ni fydd hyn yn effeithio ar sefydliad priodas na phartneriaeth sifil nac yn effeithio ar bobl oherwydd eu priodas neu eu partneriaeth sifil.
Partneriaeth Sifil			Dim	

4.6 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?

Beichiogrwydd a Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Beichiogrwydd			Dim	Nod y Ddeddf yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu addysgol. Ni fydd hyn yn effeithio ar ferched am eu bod yn feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar.
Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni)			Dim	

4.7 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hil?

Hil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Pobl o leiafrif ethnig (e.e. Asiaidd, Du)			Dim	Nid yw'r Ddeddf yn ymwneud yn benodol â hil ac ni nodwyd effaith anuniongyrchol ar hil benodol. Ei nod yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu addysgol.
Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig)			Dim	
Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid			Dim	

Sipsiwn a Theithwyr			Dim	
Mudwyr			Dim	
Eraill			Dim	

4.8 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

Crefydd a chred neu ddiffyg cred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Gwahanol grwpiau crefyddol gan gynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Eraill (nodwch)			Dim	Nod y Ddeddf yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu addysgol. Nid oes unrhyw dystiolaeth y bydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc oherwydd eu crefydd a'u cred neu eu diffyg cred. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc.
Cred e.e. Dyneiddwyr			Dim	
Diffyg cred			Dim	

4.9 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?

Cyfeiriadedd	Cadarnhaol	Negyddol	Dim /	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys
--------------	------------	----------	-------	---

Rhywiol			Dibwys	tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Dynion hoyw			Dim	Nod y Ddeddf yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu addysgol. Nid oes unrhyw dystiolaeth y bydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.
Lesbiaid			Dim	
Deurywiol			Dim	

4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?

Hawliau Dynol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys dystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Hawliau Dynol yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig	Cadarnhaol			<p>Nod y Ddeddf yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc yn yr ysgol neu mewn addysg bellach sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu addysgol. Mae Asesiad Effaith ar wahân wedi'i gwblhau ynghylch Hawliau Plant a daeth i'r casgliad y bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol.</p> <p>Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, yn ogystal â'r asesiad effaith hwn, wedi'u diwygio a'u diweddarau i adlewyrchu effaith gwelliannau Cam 3 a'r Ddeddf derfynol a gymeradwywyd.</p> <p><u>Hawliau dynol</u></p> <p><u>Rydym wedi ystyried hawliau'r Confensiwn ac yn ystyried bod y Ddeddf yn gydnaws â nhw.</u></p> <p><u>Er enghraifft:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae erthygl 2, protocol 1 a 2 yn gymwys. Ystyrir bod yr

Hawliau Dynol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
				<p>hawl i addysg a'r hawl i blant a phobl ifanc beidio â phrofi gwahaniaethu yn eu herbyn wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf. Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn bosibl cynllunio'n well ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ysgol neu mewn addysg bellach ag ADY a rhoi cymorth gwell iddynt. Nodwyd bod ail frawddeg E2 P1 yn nodi bod yr hawliau a roddir i rieni yn cynnwys yr hawl i sicrhau bod y wladwriaeth yn parchu credoau crefyddol/athronyddol. Rydym yn ystyried bod yr hawl hon sydd gan rieni (sy'n eilradd i hawl y plentyn i gael addysg (uchod)) wedi'i hadlewyrchu yn y Ddeddf. Mae'r hawl i blant a phobl ifanc beidio â phrofi gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd anabledd hefyd i'w gweld yn y Ddeddf, drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrrff y GIG roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wrth wneud penderfyniadau, yn unol â'r Cod ADY.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae erthygl 6 hefyd yn gymwys. Mae'r Ddeddf yn sefydlu hawl i apelio i dribiwnlys diduedd. Yn y broses o benderfynu ar hawliau sifil, mae gan bawb hawl i wrandawriad teg a chyhoeddus o fewn cyfnod rhesymol gan dribiwnlys annibynnol a diduedd a sefydlwyd gan y gyfraith. Yr hawl i gael CDU priodol (er enghraifft) yw un o'r hawliau sydd wedi'u diogelu o dan y Ddeddf. Mae'n rhoi hawl i blant, eu rhieni a phobl ifanc apelio. • Lle ystyrir bod unrhyw un o hawliau rhieni o dan erthygl 2, protocol 1 yn gymwys, caiff ei pharchu i'r graddau

Hawliau Dynol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
				<p>prïodol gan y system apelio a sefydlir gan y Ddeddf. Gellir cyfleu safbwyntiau'r rhieni a'r plentyn i'r tribiwnlys annibynnol. Mae hyn yn cadw'r cydbwysedd cywir rhwng erthygl 2, protocol 1 ac erthygl 8.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r Ddeddf.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasgloch ac a ystyriwyd gennych yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:

1.1 Sut y gallai, neu sut y mae'r polisi'n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal?

Y cyntaf o gyfres yw'r canllawiau, sy'n nodi sut y bydd elfennau penodol o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 byn cael eu rhoi ar waith. Mae'r canllawiau penodol hyn yn nodi sut y bydd Cynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu rhoi ar waith yn gyffredinol i blant oedran ysgol gorfodol neu iau.

Y Ddeddf

Nod y Ddeddf yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY yn cyflawni hyd eithaf ei allu addysgol. Mae hyn yn seiliedig ar bolisi ehangach o fewn y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus lle dylai pob plentyn a pherson ifanc allu cyflawni hyd eithaf ei allu a derbyn cyfle cyfartal, beth bynnag yw'r heriau a'r rhwystrau. Nid yw cael ADY ynddo'i hun yn nodwedd warchoddedig berthnasol. Fodd bynnag, mae gan lawer o blant a phobl ifanc sydd ag ADY anabledd sy'n berthnasol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – mae cael anabledd yn un rhan o'r diffiniad o ADY, a gallai'r rhan arall (sef anhawster llawer mwy wrth ddysgu na mwyafrif y dysgwyr eraill o'r un oed) fod yn gyfystyr ag anabledd mewn rhai achosion. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod awdurdodau lleol a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r Ddeddf. Rydym yn ystyried, felly, y byddai mesurau i hyrwyddo cyfle cyfartal ymhlith plant a phobl ifanc sydd ag ADY hefyd yn helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal i rai plant a phobl ifanc sydd ag anabledd.

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i blant a phobl ifanc (hyd at 25 oed) sydd fel rheol yn byw yng Nghymru, o oed ysgol gorfodol neu'n iau, neu mewn addysg bellach, sydd ag ADY. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n mynychu lleoliad annibynnol (p'un a yw'r rhieni yn ei gyllido neu beidio), sy'n cael eu haddysgu gartref, sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol a'r rheini sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae rhai o ddyletswyddau'r Ddeddf hefyd yn berthnasol i blant a phobl ifanc sy'n byw yn Lloegr sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach neu ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Yn y bôn, mae'r Ddeddf wedi'i sefydlu i fodloni anghenion dysgu ychwanegol plant ag anabledau dysgu (ac anawsterau dysgu eraill) mewn addysg a phobl ifanc sydd ag anawsterau o'r fath sydd mewn addysg bellach. Yn ei dro, dylai hyn helpu i gael gwared â'r anfanteision y byddai'r rhain yn eu hwynebu fel arall neu eu lleihau. Mae yna ddarpariaethau cynnwys o fewn y Ddeddf er mwyn sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn cael eu cynnwys gymaint â phosibl mewn addysg brif ffrwd ac, yn y pen draw, drwy fodloni eu ADY, geisio annog mwy i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus yn y tymor hir.

Dylai manylion a phrosesau'r system newydd fod yn fwy effeithiol, felly, o ran bodloni anghenion plant a phobl ifanc. At hyn, mae ymestyn hawliau apelio i bobl ifanc hyd at 25 oed, a rhoi ffordd i blant sydd heb allu digonol i herio penderfyniad gael cyflwyno apêl drwy 'gyfaill achos' yn helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal i'r dysgwyr hyn.

Mae'r Ddeddf yn cefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc i chwarae rhan fwy amlwg mewn unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy. Mae hyn yn cynnwys sefyllfa lle y mae plentyn, person ifanc neu riant yn wynebu rhwystrau penodol wrth fynegi ei farn. Er mwyn cefnogi dysgwyr a'u rhieni i chwarae rhan amlwg, mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i roi gwybodaeth a chynghor i bobl am ADY a'r system ADY. Byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol hefyd wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i blant ag ADY sydd heb y gallu i ddeall eu CDU a dogfennau a gwybodaeth arall a gyflwynir iddynt, neu'r hyn y mae'n ei olygu i arfer eu hawliau o dan y system, gael 'cyfaill achos' a benodir ar eu cyfer lle bydd y Tribiwnlys yn ystyried ei fod yn briodol. Gall 'cyfaill achos' gynrychioli a chefnogi'r plentyn a gwneud penderfyniadau ar ran y plentyn mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'i ADY a'i DDdY. Bydd plant sydd heb ddealltwriaeth ddigonol yn gallu cael 'cyfaill achos', lle penodir un gan y Tribiwnlys Addysg, i arfer eu hawliau o dan y Ddeddf. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r plant fynegi eu barn a gwneud apelau.

Y canllawiau

Mae'r canllawiau yn nodi dull o raddol weithredu CDUau i blant ag ADY sydd o oedran ysgol gorfodol neu'n iau. Mae'r dull hwn yn rhoi blaenoriaeth i'r plant ag ADY sydd fwyaf agored i niwed: yr ieuengaf, y rhai â'r anghenion mwyaf difrifol a mwyaf cymhleth, a'r rhai hynny sydd ar fin cyrraedd cerrig milltir allweddol yn eu haddysg.

1.2 Sut y gallai / sut y mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?

Bydd defnyddio ADY fel term unigol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 mlwydd oed yn helpu i osgoi peth o'r stigma sy'n gysylltiedig â'r termau presennol 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau a/neu anabledau dysgu'.

Bydd yr hawl i blant a phobl ifanc beidio â phrofi gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd anabled, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrrff y GIG roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau wrth wneud penderfyniadau strategol, yn unol â'r Cod ADY, yn sicrhau bod erthyglau'r Confensiwn yn cael lle canolog wrth wneud penderfyniadau, ac yn cael eu hystyried yn llawn.

Mae'r Ddeddf hefyd yn sicrhau bod gan blant, eu rhieni, a phobl ifanc yr hawl i apelio os ydynt yn teimlo nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni.

1.3 Sut y gallai / sut y mae'r polisi'n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Mae'r Ddeddf yn helpu i sicrhau y rhoddir sylw i anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY mewn lleoliad addysg. Bydd yn creu system unedig a fydd yn cefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo o un lleoliad addysgol i'r llall (fel meithrinfeydd, ysgolion a sefydliadau addysg bellach). Maent hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt ddatblygu'n oedolion – gallai hyn gynnwys eu cefnogi i fyw'n annibynnol a'u cynorthwyo i ddod yn rhan o'u cymuned ehangach.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau addysg gynhwysol i blant a phobl ifanc ag ADY ochr yn ochr â'u cyfoedion, gan helpu i feithrin cysylltiadau da rhyngddynt.

Dylai cefnogi plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf ei allu ei gynorthwyo i ddatblygu'n aelod brwd o'r gymuned. Bydd hyn yn gwella cydlyniant o fewn cymunedau.

2. Cryfhau'r polisi

**2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol (niweidiol) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn?
Pa newidiadau / camau ymarferol allai helpu i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?**

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u pennu.

**2.2 Os na roddir unrhyw gamau ar waith i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhowch resymau pam.
(Cofiwch, os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, rhaid newid neu adolygu'r polisi.)**

Amherthnasol.

3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut yr ewch chi ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?

Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol ac ati).

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi arweinwyr rhanbarthol ar gyfer y rhaglen trawsnewid system ADY. Gan weithio gyda chyrff a chanddynt ddyletswyddau o dan y Ddeddf, bydd yr arweinwyr trawsnewid yn drafftio cynllun gweithredu i gefnogi awdurdodau lleol, darparwyr addysg, byrddau iechyd ac eraill i greu'r system deddfwriaethol newydd a'r broses drawsnewid ehangach ac i baratoi ar eu cyfer. Bydd gan yr arweinwyr trawsnewid ran yn y gwaith o fonitro ac adolygu'r trefniadau gweithredu wrth i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith.

Mae dull monitro a gwerthuso wedi cael ei ddatblygu a fydd yn ystyried yn benodol, y broses o gyflwyno'r gwaith gweithredu fesul cam.

:

- parodrwydd – sydd eisoes ar y gweill a bydd yn asesu i ba raddau y mae asiantau gweithredu yn barod ar gyfer y newidiadau;
- cydymffurfio – i asesu i ba raddau y mae sefydliadau yn llwyddo i fodloni'r gofynion deddfwriaethol newydd unwaith y dânt i rym; ac
- effaith – i fonitro i ba raddau y mae'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi ehangach yn cael eu sefydlu ac yn cael effaith ar y canlyniadau i ddysgwyr. Mae astudiaeth sylfaenol yn cael ei chynnal ar hyn o bryd, y gallir asesu effaith yn ei herbyn yn y dyfodol. Mae astudiaeth sylfaen yn cael ei chynnal ar hyn o bryd, a gellir ei defnyddio i asesu effaith yn y dyfodol.

Bydd y dull monitro a gwerthuso yn cynnwys adolygiad ar ôl ei weithredu.

4. Datganiad

Nid yw'r polisi'n effeithio'n sylweddol ar faterion cydraddoldeb

Y swyddog sy'n cyflawni'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Karen Bathgate
Adran:
Cangen Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol, Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Dyddiad:
Gorffennaf 2018
Pennaeth Adran (Llofnod) Ruth Conway
Teitl swydd ac adran:
Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Dyddiad:
Gorffennaf 2018